

Fôn Roberts  
Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Swyddfeydd y Cyngor  
Llangefni  
Ynys Môn  
LL77 7TW

Date: 03 Awst 2020

Annwyl Fôn Roberts,

## **Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020**

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiadau ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Ynys Môn wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Fodd bynnag, credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
☎ 0872 437 7303  
✉ [CIW@gov.wales](mailto:CIW@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Welsh Government Office  
Sarn Mynach  
Llandudno Junction  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'n dull cynyddol gydwethredol a seiliedig ar gryfderau o hybu gwelliant.

Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan y gweithgarwch gwerthuso perfformiad a gynhaliwyd gan yr arolygiaeth yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys:

- arolygiad o wasanaethau oedolion hŷn – Gorffennaf 2019
- cyfarfodydd ag uwch-reolwyr
- gweithgareddau â ffocws ym maes gwasanaethau plant
- gweithgarwch ymgysylltu ag oedolion hŷn
- cyfarfod sicrwydd a risg
- adborth/gwybodaeth a gafwyd
- adolygu gwybodaeth am berfformiad

Mae cynnwys ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchiad cywir o'n canfyddiadau parhaus a rennir â'r awdurdod lleol yn gyson.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

## **Llesiant**

Mae gwasanaethau cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn yn cael budd o dîm uwch-reolwyr profiadol a brwdfrydig, a chefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol cadarn. Mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau ymarferol yn ystod y flwyddyn er mwyn galluogi aelodau i wella eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r prosesau a'r heriau ym maes gwasanaethau oedolion. Mae hyn yn adeiladu ar waith a wnaed yn llwyddiannus mewn blynyddoedd blaenorol i baratoi ac ymgysylltu'n well ag aelodau wrth gynllunio a darparu gwasanaethau plant. Mae aelodau etholedig Panel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol bellach mewn sefyllfa dda i fonitro cynnydd wrth sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl mewn gwasanaethau plant ac oedolion.

Un o heriau a dyletswyddau mawr awdurdod lleol yw dod o hyd i lety addas i blant ag anghenion cymhleth; mae'n destun pryder y bu'n rhaid rhoi plentyn mewn gwasanaeth anghofrestredig yn ystod y flwyddyn gan nad oedd digon o wasanaethau cofrestredig ar gael. Gall darparu gwasanaethau lleol i blant ar Ynys Môn helpu i hyrwyddo a chynnal eu llesiant, cyfrannu at leihau'r newidiadau o ran gweithwyr cymdeithasol a'r nifer o leoliadau cost uchel y tu allan i'r sir. Mae'r awdurdod lleol yn gwneud cynnydd o ran cynyddu cynigion llety i blant a phobl ifanc yn eu cymunedau eu hunain, a bydd yn awyddus i barhau i flaenoriaethu'r gwaith hwn.

## **Pobl**

Yn ystod 2019-2020, roedd Cyngor Sir Ynys Môn wedi ceisio cynnwys pobl yn y broses o gynllunio gwasanaethau ar lefel strwythurol ac ar lefel yr unigolyn. Lluniwyd strategaeth newydd ar gyfer gwasanaeth dydd anabledd dysgu ar y cyd â phobl ag anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Dywedodd yr awdurdod lleol ei fod wedi cynnal trafodaeth bellach (a gafodd ymateb cadarnhaol) gyda'r nod o sicrhau bod y strategaeth yn gwneud synnwyr i bobl y mae'r cynigion yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Bydd AGC yn dilyn hynt y gwaith hwn.

O ran gwasanaethau plant, sefydlwyd grŵp prosiect gyda 'Voices from Care' er mwyn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed wrth gynllunio a datblygu gwasanaethau. Rhoddodd yr awdurdod lleol wybod i ni am 'ap' y mae'n ei ddefnyddio er mwyn cefnogi plant yn greadigol i leisio eu barn a myfyrio ar eu cynnydd. Rydym yn croesawu cyfle i glywed mwyn am y gwaith hwn wrth iddo ddatblygu.

Mae hwn yn welliant amlwg o ran ansawdd goruchwyliaeth rheolwyr, gwaith dadansoddi achosion a chrynodebau cau achosion gwasanaethau plant. Mae'r trywydd y mae'r gwasanaeth am ei ddilyn yn glir ac mae canllawiau i staff sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae cyflwyno'r polisi goruchwyllo yn annog ymarfer myfyriol, dadansoddi a chofnodi penderfyniadau yn well.

Mae gwasanaethau oedolion yn parhau i ganolbwyntio'n glir ar bobl a darparu canlyniadau cadarnhaol. Fodd bynnag, mae lle i wella o ran sicrhau bod ymarferwyr yn llunio cofnodion amserol a hygyrch yn unol â'r disgwyliadau proffesiynol.

Yn gyffredinol, nid oedd yr asesiadau galluoedd meddyliol a welwyd gan arolygwyr ar Ynys Môn yn cyrraedd y safonau gofynnol. Er mwyn sicrhau bod lleisiau'r bobl sy'n agored i niwed yn cael eu clywed, rhaid i'r awdurdod lleol wella ansawdd yr asesiadau hyn yn unol â gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn awyddus i sicrhau bod gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth ddigon cyfredol am y ddeddf galluedd meddyliol i'w paratoi ar gyfer y newidiadau arfaethedig i'r ddeddfwriaeth.

Mae nifer y bobl hŷn sy'n cael taliadau uniongyrchol ar Ynys Môn yn isel. Bydd y rheolwyr am sicrhau bod y gweithwyr cymdeithasol yn hyderus wrth gynnig taliadau uniongyrchol a chefnogi pobl i ddewis sut maent yn cael gofal a chymorth. Ni ddylai bwriadau comisiynu'r awdurdod lleol nac ymarfer gwaith cymdeithasol gyfyngu'n ddiangen ar ffynonellau gofal a chymorth.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Mae'r rhan fwyaf o staff gwasanaethau cymdeithasol yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg. Mae'r ymarferwyr yn hyderus wrth weithio'n ddwyieithog ac yn arbennig o sensitif i anghenion y bobl sy'n newid rhwng ieithoedd er mwyn mynegi eu hunain yn effeithiol. Mae urddas a pharch wedi'u hymgorffori yn y sgysiau hyn wrth i ymarferwyr rhoi ystyriaeth flaenllaw i anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn ystod y broses asesu. Mae hwn yn arfer dda amlwg.

## **Atal**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau cymorth cynnar ac atal, gan gydnabod yr effaith o ran gwella canlyniadau i bobl yn ogystal â lleihau pwysau ar y sector statudol. Mae'r awdurdod lleol yn cyfrannu adnoddau at y gwaith o annog cymunedau i feithrin gwydnwch a lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol.

Mae llawer o enghreifftiau cadarnhaol o ymarferwyr yn cefnogi pobl a darparu gofal a chymorth yn eu cymunedau er mwyn eu hatal rhag wynebu argyfwng. Fodd bynnag, nid oedd bob amser yn amlwg bod asesiad a phenderfyniad ynghylch cymhwysedd ar gyfer gofal a chymorth yn ysgogi'r ymateb a gynigiwyd yn gyson. Weithiau, y rheswm dros hyn oedd oherwydd nad oedd dogfennaeth wedi'i chwblhau nac ar gael yn gyson. Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau bod ymarferwyr bob amser yn cynnal hawliau diamwys pobl i gael asesiad a phenderfyniad ynghylch cymhwysedd yn unol â chanllawiau statudol.

Nod Teulu Môn yw sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cael eu cynnig i blant a'u teuluoedd ar yr adeg gywir i ddiwallu eu hanghenion. Mae prosesau archwilio mewnol yn parhau i gael eu cynnal er mwyn sicrhau bod ymyriadau priodol gan weithwyr cymdeithasol hefyd ar gael 'ar yr adeg gywir' er mwyn gwella bywyd teuluol a chefnogi teuluoedd. Bydd sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir gan yr ymarferwyr mwyaf cymwys yn gwella canlyniadau i bobl, gan sicrhau bod yr awdurdod lleol yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau. Bydd yr awdurdod lleol am barhau i wneud y gwaith hwn ac mae'n bosibl y bydd am drosglwyddo'r dysgu hwn i wasanaethau oedolion.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r canfyddiadau allweddol yn tynnu sylw at feysydd i'w gwella mewn perthynas â phroffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae llawer o'r meysydd i'w gwella rydym wedi'u nodi yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc â phrofiad o ofal, ac rydym yn disgwyl y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Cawsom ymateb ffurfiol gan Gyngor Sir Ynys Môn, sydd o'r farn bod ei ymarfer yn dda yn y maes hwn.

## **Partneriaethau**

Mae llawer o enghreifftiau cadarnhaol o weithio mewn partneriaeth yng Nghyngor Sir Ynys Môn. O ran gwasanaethau oedolion, gwelsom fod gwasanaethau gweithredol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ar y cyfan er mwyn galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartrefi am gyhyd â phosibl. Mae grŵp cynllunio Môn wedi bodoli ers sawl blwyddyn; mae'n glir bod llawer o gydberthnasau yn y grŵp wedi'u datblygu'n dda ac yn effeithiol. Mae angen gwneud rhywfaint o waith mireinio er mwyn sicrhau bod y grŵp hwn yn gyson â'r agenda cynllunio ehangach ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi datblygu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn gadarnhaol ynghylch y newid arfaethedig i dimau adnoddau cymunedol. Mae angen i bartneriaid strategol allweddol sicrhau bod y gwaith o ddarparu gwasanaethau yn canolbwyntio ar bobl a cymunedau er mwyn sicrhau y gellir gwireddu gofal yn agosach i gartref. Ar adeg yr arolygiad, roedd angen cynlluniau mwy cadarn a gwella ansawdd er mwyn cefnogi'r broses o symud i dimau adnoddau cymunedol.

## **Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021**

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl.

O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymgyrch wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac AGIC hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â chyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers  
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.  
Archwilio Cymru  
AGIC  
Estyn